**AC-09-02(p6)**

**Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Rhaglen Derfynol Gwaith Gwerth am Arian ar gyfer 2003-2004**

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*
**Rhagfyr 2002**

DRAFT

## Rhaglen Derfynol Gwaith Gwerth am Arian ar gyfer 2003-04

### Cyflwyniad

1. Yn ei gyfarfod ar 24 Hydref 2002, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio fy amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-2004 ac ystyriodd fy memorandwm ar fy rhaglen arfaethedig ar werth am arian ar gyfer 2003-04 a'r blynyddoedd dilynol (AC-07-02 tud. 2). Rwyf wedi ystyried safbwyntiau'r Pwyllgor ac rwyf bellach mewn sefyllfa i hysbysu'r Pwyllgor o'm penderfyniadau terfynol. Mae'r memorandwm hwn felly yn nodi'r rhaglen derfynol o archwiliadau gwerth am arian a gymeradwywyd gennyf ar gyfer 2003-04.

### Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian ar gyfer 2003-2004

2. Mae'r pynciau rwyf wedi penderfynu eu cynnwys yn fy rhaglen o archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2003-04 fel a ganlyn:

   (a) amseroedd aros yn y GIG;

   (b) caffael cyfleustodau yn y GIG;

   (c) mynd i'r afael â'r broblem o drais yn y GIG;

   (ch) amddiffyn rhag llifogydd;

   (d) rheoli absenoldeb staff oherwydd salwch mewn addysg uwch ac addysg bellach;

   (dd) defnydd effeithiol o grantiau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn swydd;

   (e) Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd – dilyniant;

   (f) taliadau iawndal ar gyfer twbercwlosis; ac

   (ff) arian loteri y Cyngor Chwaraeon.

*3.* O ystyried y diddordeb sylweddol a fynegwyd yn gyffredinol gan Aelodau ym maes iechyd, rwyf wedi cynyddu nifer yr archwiliadau yn y maes hwnnw o ddau i dri, drwy ychwanegu archwiliad ar *drais yn y GIG* lle'r oedd awydd clir ar ran yr Aelodau i fynd â'r archwiliad hwn yn ei flaen. Rwyf wedi penderfynu parhau â'm harchwiliadau ar *amseroedd aros* a *chaffael cyfleustodau*. Cafwyd cefnogaeth gref i'r cyntaf gan rai Aelodau, tra fy mod

DRAFT

o'r farn y byddai'r olaf yn debygol o gynhyrchu arbedion ariannol sylweddol – rhywbeth y mae'r Pwyllgor a minnau yn awyddus i barhau i'w gyflawni.

4. Fodd bynnag, mae ychwanegu *trais yn y GIG* i'r rhaglen yn golygu bod yn rhaid i mi, o fewn dyraniad adnoddau penodedig, ohirio gwneud archwiliad mewn mannau eraill – y *system Jigsaw*. Mae hwn yn archwiliad roeddwn wedi bwriadu ei gynnal yn ddiweddarach yn 2003-04; rwyf bellach yn bwriadu gohirio'r gwaith hwn tan ddechrau'r flwyddyn ganlynol, 2004-05, er y byddaf, wrth gwrs, yn trafod fy nghynlluniau llawn ar gyfer y flwyddyn honno gyda'r Pwyllgor unwaith eto yn ystod yr hydref 2003.

5. Ym maes iechyd, mynegodd Aelodau hefyd ddiddordeb mewn *darpariaeth deintyddion* ac mewn *gwasanaethau iechyd meddwl.* Mae cyfarwyddiaeth y GIG o fewn y Cynulliad wedi dechrau rhoi nifer o fentrau yn y meysydd hyn ar waith yn ddiweddar. Byddai cynnal archwiliad yn 2003-04 felly yn rhy fuan i asesu eu heffeithiolrwydd yn gywir. Yn naturiol, byddaf yn ystyried hyn ymhellach pan fyddaf yn ystyried fy rhaglen ar gyfer y flwyddyn ganlynol, 2004-05.

6. Ym maes yr amgylchedd, cynllunio a thrafnidiaeth, tra bod rhai Aelodau wedi mynegi eu cefnogaeth ar gyfer archwiliadau ar *ddiogelwch ar y ffordd,* ac *ansawdd traethau*, roedd cefnogaeth hefyd ar gyfer fy nghynnig cychwynnol, *amddiffyn rhag llifogydd.* Credaf y byddai archwiliad ar amddiffyn rhag llifogydd yn 2003-04 yn amserol – gan ystyried y cynnydd a wnaed yn y maes hwn ers y stormydd mawr yn ystod hydref 2000 – ac rwy'n bwriadu mynd â'r cynnig hwn yn ei flaen, tra ystyried y lleill am flynyddoedd i ddod.

7. Ym maes addysg ac hyfforddi, cefais gefnogaeth Aelodau unigol i'm harchwiliadau arfaethedig ar *ddysgu fel gyrfa, arian cyfalaf ar gyfer ysgolion* ac *Estyn* yn 2004-05 a'r blynyddoedd dilynol, sy'n bynciau deniadol i'w harchwilio. Sut bynnag, er bod y Pwyllgor yn rhoi cefnogaeth barhaol i ymgymryd ag astudiaethau a allai greu arbedion ariannol, dwi'n cynllunio felly i wthio ymlaen gyda'm cynnig i archwilio *rheoli absenoldeb staff oherwydd salwch* yn 2003-04. Byddaf hefyd yn parhau gyda'm cynlluniau i archwilio *grantiau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn swydd* gan fod hwn yn bwnc amserol ac un sy'n cynnig cyfle am gydweithio rhwng y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru. Byddaf yn disgwyl i ddod â'r pynciau eraill ymlaen a gefnodwyd gan Aelodau yn y blynyddoedd dilynol.

8. Yn nhermau datblygu economaidd, nododd un Aelod y gallai thema gael ei chynnwys yn fy astudiaethau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ar ôl yr un nesaf, 2004-05. Byddaf yn sicr yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth i mi ystyried fy rhaglen ar gyfer y flwyddyn honno yr hydref nesaf. Mynegodd Aelod arall ei gefnogaeth ar gyfer fy archwiliad o *gysylltedd band eang*. Heb amheuaeth, mae hwn yn faes sy’n denu diddordeb sylweddol, ond byddai adroddiad archwilio y flwyddyn nesaf yn rhy gynnar i gael effaith wirioneddol.

9. Ym maes amaethyddiaeth a materion gwledig, dywedodd rhai Aelodau y byddai’n well ganddynt weld archwiliad o *gynllun adfer cefn gwlad* yn dechrau y flwyddyn nesaf yn 2003-04, yn hytrach na’r flwyddyn ganlynol. Mae amseriad yn allweddol ar gyfer y pwnc hwn; ac mae ariannu’r cynllun dros gyfnod o dair blynedd yn golygu bod archwiliad yn 2003-04 yn debygol o fod yn rhy gynnar i asesu effaith y cynllun. Byddai archwiliad sy’n dechrau yn 2004-05 felly yn fwy priodol. Gofynnodd un Aelod hefyd os gellid dod â’r archwiliad *cynllun premiwm blynyddol defaid* yn ei flaen i 2003-04. Mae hwn yn bwnc lle nad yw’r amseriad mor allweddol, tra bod fy nghynnig cychwynnol o *daliadau iawndal ar gyfer twbercwlosis* yn un sy’n warantu archwiliad cynnar, sy’n gysylltiedig ag argyfwng clwy’r traed a’r genau, ac ar sail y tyfiant degplyg dros y pum mlynedd diwethaf yn y lefel iawndal. O ystyried mai dim ond nifer penodol o archwiliadau y gallaf eu cynnig bob blwyddyn, rwyf yn bwriadu felly i wthio ymlaen gyda fy archwiliad arfaethedig ar *daliadau iawndal ar gyfer twbercwlosis* yn 2003-04.

10. Bydd Aelodau yn gwerthfawrogi’r ffaith y gellir newid y rhaglen. Mae’r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir gennyf i’r Pwyllgor yn elwa ar fod mor hyblyg â phosibl, ac yn ymatebol i amgylchiadau newidiol. Fodd bynnag, ailadroddaf y pwynt a wnaed gennyf mewn blynyddoedd blaenorol: mae costau cyfleoedd yn gysylltiedig â gwaith ychwanegol. Gydag adnoddau cyfyngedig ar gael i mi, er eu bod nhw’n estynedig, gallaf ond cynnwys gwaith sylweddol nas cynlluniwyd drwy wneud newidiadau i’m rhaglen mewn mannau eraill. Yn naturiol, byddaf yn sicrhau y caiff y Pwyllgor ei hysbysu am unrhyw newidiadau o’r fath os byddant yn codi.

DRAFT

**John Bourn**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**11 Rhagfyr 2002**

DRAFT